

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflenni CRM14 a CRM15



Asiantaeth Cymorth
Cyfreithiol

Canllawiau ar gyfer CRM14

- Mae'r canllawiau hyn a'r ffurflenni y cyfeirir atynt ar gael yn Saesneg.
- Os bydd angen help neu gyngor arnoch wrth ddefnyddio'r Canllawiau hyn, cysylltwch â chyfreithiwr (ond gweler *Ynglŷn â thystiolaeth* ar dudalen 3 a chwestiwn 38 pan allwch ofyn i'r Llys am gyngor).

Pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen

- Atebwch bob cwestiwn o 1 i 39 oni ddywedir wrthyhch am symud at gwestiwn diweddarach. Er enghraifft, os **Nac oes** yw eich ateb i gwestiwn 34, dylech ateb cwestiwn 36 nesaf am na fydd cwestiwn 35 yn berthnasol i chi.

34 Oes llys wedi eich rhoi ar remand yn y ddaifa?
 Nac oes: Ewch i 36 Oes: Ewch i 35

- Atebwch **nac ydw/nac ydy/nac oes** neu **ydw/ydy/oes** i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau: ac os yw eich ateb yn gadarnhaol, atebwch rannau eraill y cwestiwn hwnnw. Byddwch fel rheol yn gweld saeth yn pwyntio at y rhain.

2 Oes gennych chi gyfeiriad cartref arferol?
 Nac oes Oes → Eich cyfeiriad cartref arferol

- **Peidiwch** â llenwi unrhyw ran o'r ddau flwch ar ben tudalen 1 ar y ffurflen ar gyfer *Math o achos ac Achos sy'n cael blaenoriaeth*, oni bai fod eich chyfreithiwr wedi dweud wrthyhch sut i ateb.
- Awgrymwch eich bod yn edrych ar y panel ochr cyn i chi ateb bob cwestiwn a darllen unrhyw nodiadau cyn i chi ateb y cwestiwn hwnnw.
- Yn y panel ochr, fe all fod arwyddion, un ai:
ⓘ CANLLAWIAU neu ⓘ TYSTIOLAETH

8 Oes gennych chi bartner?
ⓘ CANLLAWIAU Nac oes: Ewch i 9 Oes: Ewch i 10

Parhad ar dudalen 2 →

Defnyddiwch ffurflen CRM14

i wneud cais am gymorth cyfreithiol os bydd:

- Llys Ynadon yn delio â'ch achos
- yn dreial yn Llys y Goron
- yn achos traddodi ar gyfer dedfryd
- yn apêl i Lys y Goron
- yn ail dreial neu'n Fil Gwirfoddol mewn Llys y Goron
- yn apêl i'r Uchel Lys ar sail achos datganedig
- yn achos atafaelu, achos ataliaeth neu achos mynd i law'r derbynnydd
- yn achos gorfodi.

Defnyddiwn y wybodaeth a ddarparwch ar y ffurflen hon ac ar ffurflenni CRM15 (a CRM15C) i benderfynu a ydych am dderbyn cymorth cyfreithiol – ac os ydych, a fydd am ddim neu a fydd yn rhaid i chi dalu cyfran o'r gost.

Defnyddiwch y Canllawiau hyn wrth i chi fynd drwy'r cwestiynau ar y ffurflen. Os na wnewch chi, efallai na fyddwch yn llenwi'r ffurflen yn gywir.

Golyga ffurflen sydd wedi'i llenwi'n gywir: bod pob cwestiwn wedi'i ateb yn llawn **a** bod tystiolaeth wedi ei darparu pan fyddwn yn gofyn amdano

! CANLLAWIAU

Pan welwch yr arwydd hwn ar y ffurflen, rydym am i chi fynd at rif y cwestiwn ar dudalennau 5 i 12 yn y Canllawiau hyn. Darllenwch y cyngor gyferbyn â'r arwydd ! CANLLAWIAU .

! TYSTIOLAETH

Pan welwch yr arwydd hwn ar y ffurflen, rydym am i chi fynd at rif y cwestiwn yn y tabl ar dudalennau 5 i 12 yn y Canllawiau hyn. Darllenwch y cyngor gyferbyn â'r arwydd Tystiolaeth ! TYSTIOLAETH. Bydd hwn yn dweud wrthyfych chi am y dystiolaeth yr ydym am i chi ei darparu ar gyfer y cwestiwn hwnnw. Gweler hefyd *Ynglŷn â thystiolaeth* ar dudalen 3.

- Peidiwch â rhoi llinell trwy unrhyw gwestiwn am nad yw'n berthnasol i chi. Os byddwch yn gwneud hynny, byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch ac yn gofyn i chi am eglurhad.
- Gwnewch yn siŵr ein bod yn gallu darllen eich atebion. Efallai y bydd y ffurflen yn cael ei llungopïo, felly awgrymwch eich bod yn defnyddio inc du neu dywyll. Byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl os na allwn ddarllen eich atebion.
- Os oes gennych chi bartner (gweler cwestiwn 8) mae'n rhaid i chi hefyd lenwi manylion amdano/amdani ar y ffurflen pan fo gofyn am hynny – **oni bai eich bod wedi ateb Ydy i gwestiwn 12 am fod eich partner yn ymwneud ag achos fel dioddefwr, tyst dros yr erlyniad neu fel cyd-ddiffynnydd sydd â gwrthdaro rhwng buddiannau** (yn yr amgylchiadau hyn, dylech ddilyn y cyfarwyddiadau ar y ffurflen). Gall hyn olygu, pan fyddwch yn ateb rhai o'r cwestiynau diweddarach ar y ffurflen, na fyddwch yn rhoi manylion am eich partner ac na fydd yn rhaid i'ch partner lofnodi'r datganiad. Mae'n rhaid i chi roi manylion am eich partner ym mhob achos arall, hyd yn oed os oes llys wedi eich rhoi ar remand yn y ddalfa neu os ydych eisoes yn garcharor.
- Cyn i chi lenwi'r ffurflen, efallai y byddai o fudd i chi ddarllen y datganiad yng nghwestiwn 39, y bydd yn rhaid i chi ei lofnodi ar ôl i chi orffen llenwi'r ffurflen, a'r canllawiau ar gyfer cwestiwn 32 ar dudalen 11 yn y Canllawiau hyn.
- Mae'n bwysig eich bod yn gywir wrth lenwi'r ffurflenni.

Byddwn yn gwirio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM a sefydliadau eraill. Os byddwch yn rhoi unrhyw wybodaeth yn y cais nad yw'n wir, neu os byddwch yn hepgor unrhyw beth:

gellir eich erlyn. Gall hyn olygu eich bod yn gorfod mynd i garchar neu dalu dirwy.

neu efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu holl gostau'r cymorth cyfreithiol rydych wedi'i dderbyn, a gellir atal eich cymorth cyfreithiol. Gall hyn olygu y bydd yn rhaid i chi dalu am gostau eich cyfreithiwr gyda'ch arian eich hun.

neu os ydy'ch achos yn Llys y Goron, gall yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol amrywio swm unrhyw Orchymyn Cyfrannu y mae'n rhaid i chi dalu tuag at gostau eich cymorth cyfreithiol oddi tano.

Rhybudd: os ydy'ch achos yn cael ei gynnal yn Llys y Goron ac os ydym yn anfon ffurflen yn ôl atoch am nad ydyw wedi cael ei llenwi'n llawn neu'n gywir, ac y byddwn yn derbyn ffurflen sy'n dderbyniol yn ddiweddarach, bydd y gorchymyn cynrychiolaeth sy'n rhoi'r hawl i chi gael cymorth cyfreithiol yn dechrau ar y dyddiad pan fyddwn yn derbyn y ffurflen gywir. Gall hyn olygu y byddwch yn talu am rywfaint o gostau eich cyfreithiwr gyda'ch arian eich hun. Felly pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen hon, defnyddiwch y Canllawiau i'ch helpu i wneud y cais yn gywir.

Wedi i chi lenwi'r ffurflen hon

- Gwiriwch eich cais i wneud yn siŵr nad oes unrhyw flychau gwag lle dylech fod wedi rhoi gwybodaeth.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi llofnodi a dyddio'r datganiad.
- Os oes gennych chi bartner, gwnewch yn siŵr ei fod/bod wedi rhoi llofnod a dyddiad wrth gwestiwn 38.
- Anfonwch y ffurflen ac unrhyw dystiolaeth y mae angen i chi ei darparu gyda'r ffurflen i'r llys lle bydd eich achos yn cael ei gynnal, neu ewch â'r ffurflen a'r dystiolaeth yno.

Os byddwch yn anfon y ffurflenni a'r dystiolaeth drwy'r post, awgrymwch eich bod yn ystyried defnyddio dosbarthiad a gofnodwyd. Bydd hyn yn rhoi prawf i chi bostio'r dogfennau ac yn rhoi cofnod bod y llys wedi eu derbyn.

Ynglŷn â thystiolaeth

Efallai y byddwn angen gweld tystiolaeth sy'n profi bod y wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y ffurflen hon, ac ar unrhyw ffurflenni eraill y byddwch yn eu defnyddio i wneud cais am gymorth cyfreithiol, yn wir. Mae'r dystiolaeth y byddwn angen ei gweld yn cael ei disgrifio ar dudalennau 5 i 12 y canllawiau hyn.

Os byddwch yn darparu tystiolaeth wreiddiol, bydd y llys fel rheol yn gwneud copi ac yn dychwelyd y gwreiddiol atoch. Neu gallwch ddarparu copi a ardystiwyd gan eich cyfreithiwr.

Os ydych yn cael gwir anhawster yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom, dylech chi neu eich cyfreithiwr gysylltu â'r llys am gyngor.

Rheolau ynglŷn â thystiolaeth

Mae rheolau ar gael ynglŷn â phwy sydd angen darparu tystiolaeth a pha bryd y bydd angen iddynt ei darparu.

Dyma'r rheolau:

- Os ydy'ch achos yn cael ei gynnal yn y llys ynadon a chithau yn y carchar neu mewn canolfan gadw, **ni fydd angen i chi ddarparu tystiolaeth.**
- Os ydy'ch achos yn cael ei gynnal yn y llys ynadon a chithau ar fechnïaeth
neu os ydych wedi cael eich traddodi i Lys y Goron i gael eich dedfrydu
neu os ydych yn apelio i Lys y Goron,
mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth gyda'r ffurflen hon.
- Os ydy'ch achos yn dreial yn Llys y Goron, **mae'n rhaid i chi ddarparu'r dystiolaeth, ond bydd gennych 14 diwrnod i wneud hyn, yn dechrau ar y diwrnod y byddwch yn llofnodi ffurflen CRM14.**

Os ydych yn gorfod darparu tystiolaeth, ac os nad ydych yn gwneud hynny yn unol â'r rheolau hyn, fe all y canlynol ddigwydd:

os y llys ynadon yn unig fydd yn delio â'ch achos, efallai y byddwn yn gohirio ystyried eich cais. Fel rheol byddwn yn anfon y ffurflen gais yn ôl atoch ac yn gofyn i chi ei hanfon yn ôl atom ynghyd â'r dystiolaeth briodol.

neu os Llys y Goron fydd yn delio â'ch achos ac os tystiolaeth ynghylch eich incwm sydd ar goll, gallwn ofyn i chi dalu £900 y mis neu eich holl incwm gwario, pa un bynnag yw'r mwyaf.

neu os Llys y Goron fydd yn delio â'ch achos ac os ydy'r dystiolaeth yn cyfeirio at eich cyfalaf, efallai y byddwn yn aros i weld a fyddwch yn cael eich dyfarnu'n euog.

Os byddwch yn cael eich dyfarnu'n euog, efallai y byddwn yn dileu'r lwfans cyfalaf £30,000 ac yn gofyn i chi dalu'r gost yn llawn i'r gronfa cymorth cyfreithiol.

Cofiwch:

- Mae cais sydd wedi'i ei lenwi'n gywir yn cynnwys y dystiolaeth sydd ei hangen arnom yn cael ei darparu yn unol â'r rheolau hyn.
- Os oes gennych unrhyw amheuan ynghylch a ddylech anfon y dystiolaeth a ddisgrifir yn y canllawiau hyn (bydd y symbol tystiolaeth yn ymddangos yn y panel ar y ffurflenni os bydd gofyn am dystiolaeth) anfonwch y dystiolaeth gyda'r ffurflenni.

Caniatáu cymorth cyfreithiol

Pan fyddwn yn penderfynu a ydym am ganiatáu cymorth cyfreithiol i chi, byddwn yn defnyddio dau brawf ar gyfer eich achos:

1. Y Prawf Er Budd Cyfiawnder

Mae hwn yn ystyried a yw er budd cyfiawnder bod cyfreithiwr yn eich cynrychioli chi.

Asesiad modd

Byddwn yn edrych ar eich incwm a'ch treuliau (*outgoings*), eich cynilion, eich buddsoddiadau a'ch eiddo chi a'ch partner (os oes un gennych chi), i benderfynu a ydych yn gymwys yn ariannol, yn y llys ynadon, ac mewn treialon yn Llys y Goron.

Os ydych yn gymwys i gael arian ar gyfer treial yn Llys y Goron, bydd eich incwm a'ch treuliau hefyd yn cael eu defnyddio i asesu a oes yn rhaid i chi gyfrannu at gostau eich amddiffyniad.

Canlyniad y profion hyn

Mae hyn yn dibynnu ar y math o achos y mae angen cymorth cyfreithiol arnoch ar ei gyfer a'r llys lle cynhelir eich achos.

Dylai eich ffurflen CRM14 wedi'i llenwi ddangos i chi ar ben tudalen 1 ar gyfer pa fath o achos y mae angen cymorth cyfreithiol arnoch.

Os bydd llys ynadon yn delio â'ch achos ac y bydd yn cael ei gynnal mewn llys ynadon

Byddwch yn cael cymorth cyfreithiol yn rhad ac am ddim os byddwch yn pasio'r ddau brawf.

Os bydd eich achos yn cael ei draddodi am ddedfryd o'r llys ynadon i Llys y Goron,

byddwch yn cael cymorth cyfreithiol yn rhad ac am ddim os byddwch yn pasio'r asesiad modd.

Os ydy'ch achos yn dreial yn Llys y Goron, neu os ydy'ch achos yn ail dreial neu'n Fil Gwirfoddol

Mi gewch gymorth cyfreithiol os yw incwm gwario'r cartref yn llai na £37,500.

Fodd bynnag, os ydy'ch incwm neu eich cyfalaf, neu'r ddau, uwchben rhyw lefel arbennig, efallai y bydd yn rhaid i chi gyfrannu tuag at gostau eich cyfreithiwr a'ch amddiffyniad dan Orchymyn Cyfrannu.

Os byddwch yn apelio i Llys y Goron yn erbyn eich euogfarn, dedfryd neu orchymyn llys ynadon

Byddwch yn cael cymorth cyfreithiol os byddwch yn pasio'r Prawf Er Budd Cyfiawnder. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu tuag at gostau eich cynrychiolaeth yn yr apêl, dan Orchymyn Cyfrannu os na fyddwch yn pasio'r asesiad modd ac:

os na fydd eich apêl yn llwyddiannus.

neu os byddwch yn rhoi'r gorau i'r apêl.

Os ydych yn gwneud cais am Gymorth Cyfreithiol am apêl i'r Uchel Lys ar sail achos datganedig

Nid yw'r achosion hyn yn amodol ar brawf modd, ond maent yn amodol ar y Prawf Er Budd Cyfiawnder. Dylech lenwi ffurflen CRM14 a'i rhoi i'r llys ynadon lle cafodd yr achos ei gynnal yn wreiddiol.

Os ydych yn gwneud cais mewn perthynas ag Achos Atafaelu, Achos Ataliaeth neu Achos mynd i law'r derbynydd

Nid yw'r achosion hyn yn amodol ar brawf modd, ond maent yn amodol ar Brawf Er Budd Cyfiawnder. Dylech lenwi ffurflen CRM14 a'i rhoi i'r llys ynadon lle cafodd yr achos ei gynnal yn wreiddiol.

Os ydych yn mynd drwy achos Gorfodi

Bydd eich cynrychiolaeth yn amodol ar asesiad modd. Dylech lenwi ffurflen CRM14 newydd a CRM15 os oes angen, a'i chyflwyno i'r llys ynadon lle cynhelir yr achos gorfodi.

Os hoffech gael gwybod mwy:

- Bydd eich cyfreithiwr yn gallu dweud mwy wrthy'ch am y Prawf Er Budd Cyfiawnder a'r asesiad modd.
- Gallwch hefyd gael rhagor o wybodaeth am yr asesiad ariannol drwy ddarllen y canllawiau yn:

www.justice.gov.uk/legal-aid/assess-your-clients-eligibility

Bydd gan eich cyfreithwyr gopi o hwn hefyd.

Cwestiwn Canllawiau a gofynion Tystiolaeth ar gyfer cwestiynau ar ffurflen CRM14

1 CANLLAWIAU Rhif Yswiriant Gwladol

Mae'n rhaid i chi ddarparu'r rhif hwn:

os ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau a restrir yng nghwestiwn 14. Os ydych yn cael eich cynnwys ar ffurflen hawlio eich partner, bydd angen i chi roi Rhif Yswiriant Gwladol eich partner yng nghwestiwn 11.

neu os byddwch dros 18 pan fyddwch yn gwneud cais ac os ydy'ch achos yn mynd i Lys y Goron am dreial, ail dreial neu Fil Gwirfoddol.

LLYTHRENNAU	RHIFAU	LLYTHYREN
-------------	--------	-----------


Os na allwch ddarparu Rhif Yswiriant Gwladol, a'ch bod yn ateb Ydw i gwestiwn 14 ar ffurflen CRM14 (rydym yn galw'r budd-daliadau a restrir ar gyfer y cwestiwn hwn yn 'fudd-daliadau wedi'u hawdurdodi')


mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ddiweddar yn lle hynny – er enghraifft, llyfr budd-dal, hysbysiad o hawl neu lythyr o Ganolfan Byd Gwaith, sy'n nodi pa fudd-daliadau rydych yn eu derbyn. **Mae'n rhaid i'r dystiolaeth hon fod yn ddyddiedig o fewn y 3 mis diwethaf**

Rhif Cerdyn Cofrestru Cais (ARC)

Mae hwn ar gyfer ceisiadau gan ddinasyddion tramor. Os ydych yn ddinesydd tramor, rydym yn disgwyl i chi ddarparu eich rhif ARC sydd wedi'i argraffu ar eich Cerdyn Cofrestru Cais. Os honnir eich bod yn fewnfudwr anghyfreithlon, efallai mai rhywfaint o wybodaeth fydd gennych i'w rhoi. Fodd bynnag, byddem yn dal i ddisgwyl i chi roi eich enw, eich cyfeiriad a chymaint o fanylion ag sy'n bosibl ynghylch eich sefyllfa ariannol.

3 LLYTHYREN; 2 RHIF	6 RHIF	LLYTHYREN
---------------------	--------	-----------

8  CANLLAWIAU Partner ydy rhywun rydych wedi ei briodi neu rywun rydych mewn partneriaeth sifil ag ef/hi, neu rywun rydych fel arfer yn byw gydag ef/hi fel cwpl. Mae hyn yn cynnwys achlysuron lle rydych yn byw ar wahân am unrhyw reswm heblaw am achlysuron lle mae'ch perthynas wedi chwalu ac yn debygol o fod yn barhaol.

9  CANLLAWIAU Golyga wedi gwahanu nad ydych yn byw gyda'ch gilydd mwyach neu fod eich perthynas wedi chwalu, nid gwahanu â gorchymyn llys yn unig.

11 CANLLAWIAU Rhif Yswiriant Gwladol

Mae'n rhaid i chi ddarparu'r rhif hwn:

os ydy'ch partner yn derbyn un o'r budd-daliadau a restrir yng nghwestiwn 14.

neu os ydy'ch partner dros 18 oed pan fyddwch yn gwneud cais ac os ydy'ch achos yn mynd i Lys y Goron am dreial, ail dreial neu Fil Gwirfoddol.

LLYTHRENNAU	RHIFAU	LLYTHYREN
-------------	--------	-----------

Os na all eich partner ddarparu Rhif Yswiriant Gwladol, a'ch bod yn ateb Ydw i gwestiwn 14 ar ffurflen CRM14 (rydym yn galw'r budd-daliadau a restrir ar gyfer y cwestiwn hwn yn 'fudd-daliadau wedi'u hawdurdodi')

Mae'n rhaid i'ch partner ddarparu tystiolaeth ddiweddar yn lle hynny – er enghraifft, llyfr budd-dal, hysbysiad o hawl neu lythyr o Ganolfan Byd Gwaith, sy'n nodi pa fudd-daliadau y mae eich partner yn eu derbyn. **Mae'n rhaid i'r dystiolaeth hon fod yn ddyddiedig o fewn y 3 mis diwethaf.**

Rhif Cerdyn Cofrestru Cais (ARC)

Mae hwn ar gyfer ceisiadau gan ddinasyddion tramor. Os ydy eich partner yn ddinesydd tramor, rydym yn disgwyl i chi ddarparu rhif ARC eich partner sydd wedi'i argraffu ar ei gerdyn/cherdyn cofrestru cais. Os honnir bod eich partner yn fewnfudwr anghyfreithlon, efallai mai rhywfaint o wybodaeth fydd gennych i'w rhoi am eich partner. Fodd bynnag, byddem yn dal i ddisgwyl i chi roi enw a chyfeiriad eich partner a chymaint o fanylion ag sy'n bosibl ynghylch ei sefyllfa ariannol.

3 LLYTHYREN; 2 RHIF	6 RHIF	LLYTHYREN
---------------------	--------	-----------

14 **① CANLLAWIAU** **Manylion am y budd-daliadau rydych yn eu derbyn**

Os byddwch yn dweud wrthym fod eich partner neu chithau'n derbyn unrhyw rai o'r budd-daliadau a restrir ar gyfer y cwestiwn hwn, byddwn yn defnyddio Rhif Yswiriant Gwladol eich partner neu chithau, i wirio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau bod yr wybodaeth a roddwch ynghylch y budd-daliadau yn gywir. Os ydyw yn gywir, byddwch yn pasio'r asesiad modd yn awtomatig. Fodd bynnag, ar gyfer rhai achosion, efallai y bydd yn rhaid i chi basio'r Prawf Er Budd Cyfiawnder.

Os na fydd ein hymholiadau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cadarnhau'r wybodaeth a roddwyd gennych, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Gallwch wedyn un ai ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r wybodaeth a roesoch ar y ffurflen neu lenwi cwestiynau 15 i 22 ar y CRM14 a ffurflen CRM15 lle mae'r cwestiynau hyn yn dweud wrthyfych am wneud hynny.

15 **① CANLLAWIAU** Mae'r ffigur o £12,475 y flwyddyn (neu £1,039.58 y mis neu £239.90 yr wythnos) yn swm gros – y swm cyn tynnu treth incwm ac unrhyw ddiidyniadau eraill. Felly os yw swm eich incwm chi ac incwm eich partner o bob ffynhonnell yn £1,039.58 y mis neu'n £239.90 yr wythnos neu fwy, **cyn tynnu treth incwm**, rhaid i chi lenwi ffurflen CRM15 yn ogystal â'r ffurflen hon.

16 **① CANLLAWIAU** **Incwm o gyflogaeth**
Rhowch gyfanswm yr incwm o bob cyflogaeth. Cyn i chi ateb y cwestiwn hwn, darllenwch y canllawiau ar gyfer cwestiwn 17.
Os ydych yn gweithio i **asiantaeth**, efallai na fyddwch yn cael eich ystyried yn weithiwr cyflogedig i'r cwmni rydych yn gweithio iddo.

① CANLLAWIAU Rydym angen gweld tystiolaeth o'ch cyflogaeth, neu o gyflogaeth eich partner, neu'r ddau ohonoch os ydy'r ddau ohonoch yn gweithio. Gall y dystiolaeth fod yn slip cyflog. Dylai'r dystiolaeth fod mor ddiweddar â phosibl, ond rhaid iddi fod yn ddyddiedig o fewn y 3 mis diwethaf cyn dyddiad y ffurflen gais.

Gweler *Ynglŷn â thystiolaeth* ar dudalen 3.

① CANLLAWIAU **Incwm o fudd-daliadau eraill**

At ddibenion yr asesiad modd, anwybyddir rhai budd-daliadau fel Budd-dal Tai, Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Gofalwr ac ni ddylech ddatgan y budd-daliadau hyn ar y ffurflen. Gweler adran 18.5 y Llawlyfr Cymorth Cyfreithiol Troseddol am restr lawn o'r budd-daliadau sy'n cael eu hanwybyddu

Buddion o fath arall

Os yn derbyn 'buddion o fath arall', dylid cynnwys eu gwerth hwythau hefyd wrth gyfrifo a yw cyfanswm eich incwm yn fwy na £12,475 y flwyddyn. Rhwch eu gwerth yn y blwch Unrhyw ffynhonnell incwm arall a nodi 'buddion o fath arall' Golyga buddion o fath arall fuddion y mae eich partner neu chi yn eu derbyn o'ch gwaith yn hytrach nag arian.
→

Dyma rai enghreifftiau o fuddion o fath arall:

- defnyddio cerbyd cwmni
- lwfans tanwydd (neu lwfans cerbyd a thanwydd)
- llety am ddim
- talebau cinio
- taliadau symud o ble rydych yn byw
- talebau ar gyfer plant
- yswiriant iechyd preifat
- help gyda thaliadau morgais

Incwm o ffynonellau eraill nad ydych wedi eu disgrifio ar y ffurflen hyd yn hyn.

Er enghraifft, cymorth ariannol gan unrhyw un (nid ffrindiau neu deulu yn unig) neu gan rywun sy'n caniatáu i chi ddefnyddio asedau neu arian.

17 CANLLAWIAU

Hunangyflogaeth (gweithio i chi eich hun)

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn hunangyflogedig, efallai y bydd y cwestiynau hyn yn eich helpu i benderfynu:

- Ydych chi'n rhoi anfonebau i gleientiaid am y gwaith rydych chi'n ei wneud iddyn nhw?
- Oes gennych chi nifer o wahanol gleientiaid rydych chi'n gweithio iddyn nhw?
- Ydych chi'n chwilio am y gwaith rydych chi'n ei wneud?
- Ydych chi'n gyfrifol am golledion eich busnes yn ogystal ag yn derbyn yr elw?
- Ydych chi'n hurio pobl eraill wneud y gwaith rydych chi wedi'i dderbyn?
- Ydych chi wedi buddsoddi eich arian eich hun yn y busnes?
- Ydych chi'n darparu eitemau mawr o offer sy'n hanfodol ar gyfer eich gwaith?
- Ydych chi wedi gorfod llenwi ffurflen dreth hunanasesu ar gyfer Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)?

Os mai **Ydw** neu **Oes** oedd eich atebion i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau hyn, yna mae'n debyg eich bod yn hunangyflogedig. Fodd bynnag, nid yw bod yn hunangyflogedig yn golygu na allwch weithio i rywun arall hefyd (fel gweithiwr cyflogedig).

Mathau o hunangyflogaeth

Masnachwyr Unigol

Mae nifer o fusnesau bychan yn fasnachwyr unigol. Golyga hyn eich bod yn derbyn yr holl incwm a gynhyrchir gan y busnes i'w gadw eich hun neu i'w ail-fuddsoddi. Chi sy'n llwyr reoli a gallwch wneud penderfyniadau fel y dymunwch. Mae masnachwyr unigol hefyd yn cymryd cyfrifoldeb llwyr am unrhyw rwymedigaethau a dyledion. Mae gofyn i chi lenwi ffurflen dreth hunanasesu a'i hanfon i Gyllid a Thollau EM yn flynyddol os ydych chi'n fasnachwr unigol. Mae'n rhaid i chi hefyd gadw cofnodion yn dangos incwm a threuliau eich busnes.

Partneriaethau

Mewn partneriaeth mae dau neu fwy o bobl yn rhannu'r risgiau, y costau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r busnes. Mae pob partner yn hunangyflogedig ac yn cymryd cyfran o'r elw. Mae pob partner fel arfer cyfrannu at wneud penderfyniadau ac maent yn bersonol gyfrifol am unrhyw ddyledion sydd gan y busnes. Nid yw partneriaeth yr un fath â chwmni cyfyngedig. Dylech ateb **Ydw** i'r cwestiwn hwn hyd yn oed os ydych chi'n **bartner cwsgr** (hynny ydy, nid ydych yn ymwneud â'r bartneriaeth, ond mae gennyh hawl i gyfran o'r busnes a'i elw) →

Mae'n rhaid i'r bartneriaeth ei hun a phob partner unigol lenwi ffurflen hunanasesu treth flynyddol a'i dychwelyd i Gyllid a Thollau EM. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth hefyd gadw cofnodion yn dangos incwm a threuliau'r busnes.

Cyfarwyddwr cwmni


Cyfarwyddwr cwmni yw unrhyw un sydd wedi cofrestru fel cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig (nid yw hyn yn cynnwys elusennau). Nid oes angen i gyfarwyddwr cwmni ddal cyfranddaliadau yn y cwmni hwnnw.

Cyfranddaliwr

At ddibenion y ffurflen hon, mae cyfranddaliwr yn golygu unrhyw un sy'n dal nifer o gyfranddaliadau mewn **cwmni cyfyngedig preifat**.


Isgontractiwr

Os ydych yn **isgontractiwr**, rydych yn gwneud gwaith rydych yn ei gael gan gontractwr. O'r 6ed Ebrill 2007, rhoddodd Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) ddyletswydd ar gontractwyr i baratoi datganiad misol. Ni fydd talebau papur CIS yn cael eu defnyddio ar ôl y dyddiad hwn.

19  CANLLAWIAU

Gall y ffurflen hon eich helpu i ateb y cwestiwn hwn: Edrychwch i weld a yw'r blwch *Math o achos* ar ben tudalen 1 wedi cael ei lenwi. Os nad ydyw, gofynnwch i gyfreithiwr sut y dylech ateb y cwestiwn hwn. Mae'n bwysig eich bod yn ateb y cwestiwn yn gywir oherwydd bydd eich cwestiwn yn penderfynu a fydd yn rhaid i chi lenwi ffurflen CRM15 a rhoi manylion i ni am eich eiddo, eich cynilion, eich buddsoddiadau, eich gwariant a materion eraill.

I roi syniad bras, fel rheol ymdrinnir â throedd ynadol mewn llys ynadon yn unig - ond cofiwch fod eich ateb i'r cwestiwn hwn yn dibynnu ar y trosedd mwyaf difrifol rydych wedi cael eich cyhuddo ohono.

21  CANLLAWIAU

Cyn ateb y cwestiwn hwn, gofynnwch i chi eich hun a oes gan eich partner neu chithau unrhyw rai o'r mathau hyn o gynilion:

- Cyfrifon banc
- Cyfrifon cymdeithas adeiladu
- ISAs arian
- Cynilion Cenedlaethol neu Gyfrifon Swyddfa'r Post
- Unrhyw fuddsoddiad ariannol arall
- Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol
- Bondiau Cynilo Premiwm

Gofynnwch i chi eich hun a oes gan eich partner neu chithau unrhyw rai o'r mathau hyn o fuddsoddiadau:

- Stociau, gan gynnwys giltiau a bondiau'r llywodraeth
- Cyfranddaliadau
- Cynlluniau Ecwiti Personol (*PEPs*)


-
- ISAs Cyfranddaliadau
 - Ymddiriedolaethau Buddsoddi-drwy-unedau (*unit trusts*)
 - Bondiau Buddsoddi
 - Buddsoddiadau cyfandaliad eraill

Dylech roi Na fel ateb i'r cwestiwn hwn:

Os nad oes gennych ddim ond **un** cyfrif cyfredol, y telir eich budd-daliadau/cyflogau/tâl i mewn iddo


- a** Os nad ydych eisoes wedi'ch cyfarwyddo i lenwi CRM15 oherwydd eich atebion i Gwestiynau 15 i 20

Os ydych wedi cael cyfarwyddyd i lenwi CRM15 yn barod, bydd angen i chi ddatgan pob cyfrif banc/cymdeithas adeiladu gan gynnwys unrhyw gyfrifon cyfredol yma a phan fyddwch yn darparu manylion ar y CRM15.

-
- 23  CANLLAWIAU Dylech ofyn i gyfreithiwr eich helpu i ateb y cwestiwn hwn (a chwestiynau 24 i 31). Gall eich cyfreithiwr roi rhesymau cyfreithiol priodol i egluro pam y dylech gael cymorth cyfreithiol.


Efallai y bydd eich cyfreithiwr am edrych yn y Canllawiau ar Ystyried Ceisiadau am Orchmynion Cynrychioli'r Amddiffyniad. Maent ar gael yn:

www.justice.gov.uk/legal-aid/assess-your-clients-eligibility/interests-of-justice-test

-
- 24  CANLLAWIAU **Dosbarth y trosedd**
Mae'n rhaid ateb y cwestiwn hwn ar gyfer pob trosedd neillfordd neu ddiadwy. Bydd eich cyfreithiwr yn gallu eich helpu i ateb y cwestiwn.

Mae dosbarth y trosedd yn hanfodol i wneud yn siŵr ein bod yn penderfynu a ddylech dalu cyfraniad tuag at gost eich cymorth cyfreithiol, ac os felly, faint.

Os ydy'r ffurflen yn nodi dosbarth y trosedd yn anghywir ac os oes angen i chi dalu tuag at gostau eich cymorth cyfreithiol, gallech dalu mwy nag y dylech chi.

-
- 29  CANLLAWIAU **Rhesymau am fod angen cymorth cyfreithiol**
Bydd eich cyfreithiwr yn gallu eich helpu gyda'r cwestiwn hwn a'r canllawiau hyn.

1

Mae'n debygol y byddaf yn colli fy rhyddid os oes unrhyw fater yn yr achos yn mynd yn fy erbyn

Nid yw colli rhyddid yn cynnwys dedfrydau di-garchar ond mae'n cynnwys remand yn y ddalfa a dedfrydau o garchar (gan gynnwys gorchmynion ysbyty).

Cyfreithwyr: Os nad caethiwed ydy pwynt mynediad y trosedd hwn yng nghanllawiau'r ynadon, eglurwch pam eich bod yn meddwl bod caethiwed yn debygol yn yr achos hwn: er enghraifft, euogfarnau blaenorol perthnasol neu nodweddion gwaethybol y trosedd. Rhowch ddyddiadau euogfarnau perthnasol, os ydych yn eu gwybod.

2

Rwyf wedi cael dedfryd ohiriedig neu ddi-garchar. Os byddaf yn torri amodau'r ddedfryd, gall y llys ddelio â mi am y trosedd gwreiddiol

Dylech roi manylion eich dedfryd, ei hamodau, yr amod yr honnir sydd wedi'i dorri a dweud ai hwn yw'r tro cyntaf i chi dorri amod gorchymyn neu a ydy hyn yn dor-amod arall.

3

Mae'n debygol y byddaf yn colli fy mywoliaeth

Dylai colli bywoliaeth fod yn ganlyniad uniongyrchol i'r euogfarn neu'r ddedfryd – rhowch dystiolaeth gefnogol pan fo hynny'n bosibl. Byddai hyn fel rheol yn cyfeirio at eich bywoliaeth gyfredol, er y gall fod yn berthnasol os ydy rhywun yn wirioneddol ddi-waith am gyfnod byr rhwng swyddi. Os ydych yn bwriadu pledio'n euog, eglurwch sut y gallai cynrychiolaeth gyfreithiol eich helpu rhag colli eich bywoliaeth.

4

Mae'n debygol y byddaf yn gwneud drwg mawr i fy enw da

Mae enw da yn cyfeirio at gymeriad da, gan gynnwys gonestrwydd a natur ddibynadwy, ac nid yw'n golygu dosbarth na safle mewn cymdeithas. Bernir bod drwg 'mawr' yn digwydd mewn achosion lle bydd gwarth euogfarn yn fwy nag effaith uniongyrchol y gosb. Os ydych yn bwriadu pledio'n euog, eglurwch sut y gallai cynrychiolaeth gyfreithiol eich helpu i osgoi gwneud drwg mawr i'ch enw da.

5

Gall cwestiwn cyfreithiol sylweddol fod yn berthnasol (boed yn codi o ddeddf, awdurdod barnwrol neu ffynhonnell arall o gyfraith)

Mae hyn yn berthnasol pan fydd unrhyw fater mewn perthynas â'r achos yn codi pwynt cyfreithiol, na ellir disgwyl i chi ddelio ag ef heb gymorth. Eglurwch pam mae'r cwestiwn cyfreithiol yn berthnasol i'r achos. Nid yw cwestiynau ffeithiol yn unig yn berthnasol. Os oes modd, rhestrwch yr achosion neu'r cyfreithiau sydd wedi arwain at y cwestiwn cyfreithiol.

6

Efallai na fyddaf yn gallu deall yr achos llys neu gyflwyno fy achos fy hun

Mae sawl rheswm a allai eich rhwystro rhag deall yr achos llys neu gyflwyno eich achos eich hun. Gall y rhain gynnwys (ond heb eu cyfyngu i) anabledd meddyliol neu gorfforol, gwybodaeth wael o'r Saesneg, oedran neu fregusrwydd. Mae cymhlethdod yr achos hefyd yn debygol o effeithio ar eich gallu i ddeall yr achos neu gyflwyno eich achos eich hun.

7

Efallai y bydd yn rhaid dod o hyd i dystion neu gyfweld â nhw ar fy rhan

Efallai y bydd yn rhaid dod o hyd i dystion neu gyfweld â nhw i weld a allan nhw gefnogi eich achos. Efallai bod hyn am eich bod yn pledio'n ddiuog, neu oherwydd eich bod yn pledio'n euog ac angen help gyda phle mewn lliniariad (eglhurhad am y trosedd a roddir ar ran y sawl sy'n euog er mwyn esgusodi neu rannol esgusodi'r trosedd a gyflawnwyd mewn ymgais i leihau'r ddedfryd). Dylech egluro pam mae angen cynrychiolaeth gyfreithiol arnoch i ddod o hyd i dystion neu gyfweld â nhw.

8

Gallai'r achos gynnwys croesholi tyst dros yr erlyniad mewn ffordd arbenigol (boed yn arbenigwr ai peidio)


Mae'n debygol y bydd angen croesholi mewn ffordd arbenigol pan fyddwch yn pledio'n ddiuog ac yn disgwyl i'r erlyniad alw tystion yr ydych am herio eu tystiolaeth. Mae'n debygol y bydd angen cyfreithiwr arnoch i groesholi mewn ffordd arbenigol ar eich rhan os yw tystiolaeth tyst yr erlyniad am fod yn gymhleth neu'n dechnegol.


Byddai o fudd i rywun arall petai gennyf gynrychiolaeth (fel y sawl sy'n cwyno neu dyst arall)

Os cawsoch eich cyhuddo o drosedd rhyw neu drosedd treisgar, neu os yw'r sawl sy'n cwyno yn blentyn, ni fyddai'n briodol i chi groesholi'r unigolyn hwnnw neu honno'n bersonol. Ni ddylid defnyddio'r maen prawf hwn i ddadlau bod cynrychiolaeth gyfreithiol er budd cyffredinol i'ch teulu neu'r llys.

Unrhyw resymau eraill

Rhowch fanylion llawn unrhyw resymau eraill (nad ydych wedi eu nodi yn unman arall ar y ffurflen) pam yr ydych yn credu y byddai er budd cyfiawnder i chi gael eich cynrychioli. Er enghraifft, efallai y byddai modd cyfiawnhau cynrychiolaeth gyfreithiol os yw'n debygol y caech ddedfryd gymunedol anodd petaech yn cael euogfarn, neu os oes angen holi tyst yr amddiffyniad mewn ffordd fedrus.

30  Os ydych wedi cael eich cyhuddo gydag unigolyn arall, gall y llys benodi cyfreithiwr gwahanol i'r un rydych chi wedi gofyn iddo eich cynrychioli.

32  Mae'n rhaid i chi ateb **1**, **2**, a **3** ond efallai y byddai'n well gennyf chi roi croes wrth y blwch 'Mae'n well gennyf beidio â dweud'. Bydd eich atebion i'r cwestiwn hwn yn ein helpu i ddeall mwy am y bobl sy'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol. O ganlyniad, gallwn ni neu Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar ein rhan, baratoi gwybodaeth reoli neu ymchwil. Dim ond ar ffurf ystadegol neu ddienw y cyhoeddir y wybodaeth hon.

Diogelwch y wybodaeth a ddarperir gennyf ar y ffurflenni

- Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yw'r 'rheolydd data' (yn ôl diffiniad Deddf Diogelu Data 1998). Mae gennyf hawl i edrych ar y wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch, ei harchwilio a'i chywiro os yw'n anghywir.
- Rydym yn deall mai gwybodaeth bersonol yw eich atebion. Byddwn yn ymdrin â'r wybodaeth a ddarperir gennyf yn gyfrinachol, yn unol â'r ddeddf diogelu data. Mae'r rhybudd **Gwarchod-Personol** ar ben tudalen 1 y ffurflenni yn rhybuddio staff y llys i ofalu diogelu'r wybodaeth ar y ffurflen.
- Efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth a ddarparwch gydag asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith a sefydliadau fel yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM, Cofrestrfa Tir, Tŷ'r Cwmnïau, ac Asiantaethau Archwilio Credyd ambell waith. Dim ond os bydd y gyfraith yn mynnu neu os bydd hynny'n angenrheidiol ar gyfer gwarchod cronfeydd cyhoeddus y byddwn yn rhannu'r wybodaeth.
- Byddwn yn cadw'r wybodaeth gyhyd ag sydd angen er mwyn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012.
- Os byddwch yn darparu gwybodaeth anwir neu anghywir a'n bod yn canfod eich bod yn twyllo, byddwn yn cyflwyno'r manylion i asiantaethau atal twyll sy'n gweithio i atal twyll a gwyngalchu arian. Mae gwybodaeth am yr asiantaethau hyn ar gael drwy fynd i'r *Rhybudd Prosesu Teg* yn: www.justice.gov.uk/legal-aid/make-an-application

Ffynonellau gwybodaeth eraill y byddwn yn eu defnyddio i benderfynu a gewch chi gymorth cyfreithiol

- Mae'n bosibl y byddwn ni (ac eraill, fel asiantaethau gorfodi) yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chofnodi gan asiantaethau atal twyll.

-
- Os oes angen, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio gwybodaeth sydd gennym amdanoch yn barod (mae'n bosibl y bydd gennym wybodaeth amdanoch am eich bod wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol sifil neu gymorth cyfreithiol troseddol o'r blaen).
-

36 **!** TYSTIOLAETH **Incwm o gyflogaeth**

Rydym angen gweld tystiolaeth o'ch cyflogaeth, neu o gyflogaeth eich partner, neu'r ddau ohonoch os ydy'r ddau ohonoch yn gweithio. Gall y dystiolaeth fod yn slip cyflog. Dylai'r dystiolaeth fod mor ddiweddar â phosibl a rhaid iddi fod yn ddyddiedig o fewn 3 mis i gwblhau'r cais.

Gweler *Ynglŷn â thystiolaeth* ar dudalen 3.

38 **!** CANLLAWIAU **Datganiad eich partner**

Os nad ydy'ch partner yn gallu llofnodi'r datganiad - er enghraifft, oherwydd ei fod/bod yn yr ysbyty, mae'n rhaid i chi nodi'r rhesymau a chynnwys manylion cyswllt rhag ofn y byddwn yn penderfynu gwirio'r wybodaeth honno. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon oddi tan eich llofnod ar gyfer eich datganiad eich hun yng nghwestiwn 39.

Os nad ydy eich partner yn llofnodi'r datganiad cyn i chi anfon y cais atom ni, ac os nad ydych yn nodi rheswm boddhaol ar ddiwedd cwestiwn 39, mae'n bosibl y byddwn yn anfon eich cais yn ôl atoch ac yn dweud bod yn rhaid i'ch partner lofnodi'r ffurflen.

Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, os ydy'ch partner yn gweithio i oddi cartref. Fodd bynnag, os bydd eich achos yn mynd i Lys y Goron am dreial, gall y llys wneud gorchymyn cynrychiolaeth yn rhoi cymorth cyfreithiol i chi.

Yna bydd y llys yn anfon nodyn atoch yn eich atgoffa bod angen i'ch partner lofnodi'r ffurflen. Bydd hyn yn digwydd hyd yn oed os ydy llys wedi eich rhoi ar remand yn y ddalfa.

Os bydd hynny'n digwydd ac os nad ydy eich partner yn llofnodi'r ffurflen wedyn, mae'n bosibl y gofynnir i chi dalu £900 y mis (neu fwy os ydy eich incwm gwario yn uwch na hynny).

Os ydych yn cael anhawster gwirioneddol yn cael llofnod eich partner ar y datganiad, gallwch chi neu eich cyfreithiwr ofyn am gyngor gan y llys.

Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflenni CRM14 a CRM15



Legal Aid
Agency

Canllawiau ar gyfer CRM15

Pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen hon

Mae'r ffurflen hon yn debyg i ffurflen CRM14. Er enghraifft, rydym yn gofyn i chi roi manylion ar eich cyfer chi a'ch partner mewn rhai cwestiynau.

Cofiwch:

- Atebwch bob cwestiwn o 1 i 39 oni ddywedir wrthy ch am symud at gwestiwn diweddarach.
- Mae'r cyngor ar gyfer ffurflen CRM14 ar dudalennau 1, 2, 3 a 4 yn y Canllawiau hyn yn berthnasol i'r ffurflen hon hefyd.
- **! CANLLAWIAU**
Golyga hyn ein bod am i chi fynd i rif y cwestiwn yn y tabl ar dudalennau 14 i 22 yn y ddogfen hon.
- **! TYSTIOLAETH**
Golyga hyn ein bod am i chi fynd i rif y cwestiwn yn y tabl ar dudalennau 14 i 22 yn y Canllawiau hyn. Efallai y bydd arnom angen gweld tystiolaeth sy'n cadarnhau'r wybodaeth a roddir gennych ar y ffurflen hon ac ar unrhyw ffurflenni eraill y byddwch yn eu defnyddio i wneud cais am gymorth cyfreithiol. Mae'r dystiolaeth y byddwn angen ei gweld yn cael ei disgrifio ar dudalennau 14 i 22.
- **! CRM15C**
Golyga hyn ein bod am i chi ddefnyddio ffurflen CRM15C os oes angen rhagor o le arnoch i ateb rhai o'r cwestiynau: gweler y blwch gyferbyn.
- Efallai na fydd yn rhaid i chi ddarparu'r dystiolaeth rydym yn gofyn amdani: gweler *Rheolau ynglŷn â thystiolaeth* ar dudalen 3 y Canllawiau hyn.
- Mae'n bosibl na fydd yn rhaid i chi roi gwybodaeth am eich partner os mai **Ydy** oedd eich ateb i gwestiwn 12 ar ffurflen CRM14.

Defnyddiwch ffurflen

CRM15C:

Os oes angen i chi roi rhagor o wybodaeth pan fyddwch yn ateb cwestiynau 2, 5, 13, 24, 25, 26, 28 neu 29 ar y ffurflen hon.

Gellir cael copi o ffurflen CRM15C yn www.justice.gov.uk/legal-aid/assess-your-clients-eligibility/criminal-means-assessment

Cwestiwn Canllawiau a gofynion Tystiolaeth ar gyfer cwestiynau ar ffurflen CRM15

- 1 **! CANLLAWIAU** Os ydych chi eisoes wedi cael asesiad am gymorth cyfreithiol ac yn cyflwyno cais newydd oherwydd newid yn eich sefyllfa ariannol chi neu eich partner, dylech roi tic yn y blwch wrth ymyl "Newid yn fy sefyllfa ariannol".
-

- 2 **! CANLLAWIAU** Os ydych chi neu eich partner yn cael eich cyflogi gan rywun arall fel gweithiwr cyflogedig, mae'n rhaid i chi roi enw llawn a chyfeiriad y cyflogwr. Os na wnewch chi hyn, ni fyddwn yn derbyn eich cais.

Os ydych yn gweithio i **asiantaeth**, efallai na fyddwch yn cael eich ystyried yn weithiwr cyflogedig i'r cwmni rydych yn gweithio iddo. Gweler cwestiwn 3.

Os ydych yn **isgcontractiwr**, rydych yn gwneud gwaith rydych yn ei gael gan contractiwr. Ers 6 Ebrill 2007, mae contractwyr Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) yn gorfod paratoi datganiad misol. Ystyrir bod isgcontractiwr yn hunangyflogedig.

Os ydych yn derbyn incwm oherwydd eich bod yn hunangyflogedig, yn gyflogedig mewn partneriaeth fusnes neu'n gyflogedig fel cyfarwyddwr cwmni neu gyfranddaliwr **yn unig**, gweler cwestiwn 3.

Didyniadau

Dylech ateb y cwestiwn gystal ag y gallwch. Gall y llys brosesu eich cais hyd yn oed lle mae gwybodaeth am ddidyniadau ar goll. Os nad yw'r wybodaeth a ddarparwch yn cyd-fynd â'r dystiolaeth gefnogol, ailasesir eich cais unwaith y bydd eich tystiolaeth wedi ei derbyn. Os ydy'ch achos yn cael ei gynnal yn Llys y Goron, gallai hyn olygu newid o ran a oes angen i chi dalu unrhyw gyfraniadau tuag at gost eich achos o'ch incwm, a'r swm.

! TYSTIOLAETH

Os ydych yn derbyn arian mewn llaw, dylech ddarparu dogfennau sy'n profi'r swm rydych yn ei ddatgan ar y ffurflen.

Os ydych yn derbyn cyflog neu dâl, dylech ddarparu'r slip cyflog diweddaraf. Mae'n rhaid iddo fod yn ddyddiedig o fewn y 3 mis diwethaf. Byddai'n well gennym pe byddai'r dystiolaeth yn dangos eich Rhif Yswiriant Gwladol a chyfanswm eich enillion am y flwyddyn ariannol hyd yma.

Os na allwch ddarparu'r dystiolaeth hon, dylech ofyn i'ch cyflogwr am lythyr ar bapur y cwmni yn datgan faint rydych wedi'i ennill yn y 12 mis diwethaf.

Os ydych yn gweithio i fwy nag un cyflogwr, bydd arnom angen tystiolaeth gan bob cyflogwr.

- 3 **! CANLLAWIAU** Mae arnom angen gwybod gan faint o fusnesau, partneriaethau neu gwmnïau preifat rydych chi neu eich partner yn derbyn incwm. Mae'n bosibl eich bod yn cael eich cyflogi mewn mwy nag un o'r rhain felly gallwch roi rhif mewn mwy nag un blwch (peidiwch â gadael unrhyw flwch yn wag - rhowch DIM os nad yw blwch yn berthnasol i chi).
-

Hunangyflogaeth

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn hunangyflogedig, efallai y bydd y cwestiynau hyn yn eich helpu:

- Ydych chi'n rhoi anfonebau i gleientiaid am y gwaith rydych chi'n ei wneud iddynt?
- Oes gennych chi nifer o wahanol gleientiaid rydych chi'n gweithio iddynt?
- Ydych chi'n chwilio am y gwaith rydych chi'n ei wneud?
- Ydych chi'n gyfrifol am golledion eich busnes yn ogystal ag yn derbyn yr elw?
- Ydych chi'n hurio pobl eraill wneud y gwaith rydych chi wedi'i dderbyn?
- Ydych chi wedi buddsoddi eich arian eich hun yn y busnes?
- Ydych chi'n darparu eitemau mawr o offer sy'n hanfodol ar gyfer eich gwaith?
- Ydych chi wedi gorfod llenwi ffurflen dreth hunanasesu ar gyfer Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)?

Os mai **Ydw** neu **Oes** oedd eich atebion i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau hyn, yna mae'n debyg eich bod chi'n hunangyflogedig. Nid ydy gweithio i chi eich hun (bod yn hunangyflogedig) yn golygu na allwch chi weithio i rywun arall hefyd (fel gweithiwr cyflogedig).

Mathau o hunangyflogaeth:

Masnachwyr Unigol

Mae nifer o fusnesau bychan yn fasnachwyr unigol. Golyga hyn eich bod yn derbyn yr holl incwm a gynhyrchir gan y busnes i'w gadw eich hun neu i'w ail-fuddsoddi. Chi sy'n llwyr reoli a gallwch wneud penderfyniadau fel y dymunwch. Mae masnachwyr unigol hefyd yn cymryd cyfrifoldeb llwyr am unrhyw rwymedigaethau a dyledion.

Mae gofyn i chi lenwi ffurflen dreth hunanasesu a'i hanfon i Gyllid a Thollau EM yn flynyddol os ydych chi'n fasnachwr unigol. Mae'n rhaid i chi hefyd gadw cofnodion yn dangos incwm a threuliau eich busnes.

Partneriaeth

Mewn partneriaeth mae dau neu fwy o bobl yn rhannu'r risgiau, y costau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r busnes. Mae pob partner yn hunangyflogedig ac yn cymryd cyfran o'r elw. Fel rheol mae pob partner yn cyfrannu at wneud penderfyniadau ac maent yn bersonol gyfrifol am unrhyw ddyledion sydd gan y busnes. Nid yw partneriaeth yr un fath â chwmni cyfyngedig. Dylech ateb **Ydw** i'r cwestiwn hwn hyd yn oed os ydych yn **bartner cwsg** (hynny ydy, nid ydych yn ymwneud â'r bartneriaeth, ond mae gennych hawl i gyfran o'r busnes a'i elw).

Mae'n rhaid i'r bartneriaeth ei hun a phob partner unigol lenwi ffurflen hunanasesu treth flynyddol a'i dychwelyd i Gyllid a Thollau EM. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth hefyd gadw cofnodion yn dangos incwm a threuliau'r busnes.

Swydd Cyfarwyddwr

Cyfarwyddwr cwmni yw unrhyw un sydd wedi cofrestru fel cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig (nid yw hyn yn cynnwys elusennau). Nid oes angen i gyfarwyddwr cwmni ddal cyfranddaliadau yn y cwmni hwnnw.

Cyfranddaliwr

At ddibenion ffurflen CRM15, mae cyfranddaliwr yn golygu unrhyw un sy'n dal nifer o

gyfranddaliadau mewn **cwmni cyfyngedig preifat**.

Isgontractiwr

Os ydych yn **isgontractiwr**, rydych yn gwneud gwaith gan gontractwr. O 6 Ebrill 2007, rhoddodd Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) ddyletswydd ar gontractwyr i baratoi datganiad misol. Ni fydd talebau papur CIS yn cael eu defnyddio ar ôl y dyddiad hwn.

Gweithiwr asiantaeth

Os ydych yn gweithio i **asiantaeth**, efallai na fyddwch yn cael eich ystyried yn weithiwr cyflogedig i'r cwmni rydych yn gweithio iddo.

- 4 **! CANLLAWIAU** Os ydych chi neu eich partner wedi cyflwyno ffurflen dreth hunanasesu (SA100) yn y ddwy flynedd ddiwethaf, fe ddylech fod wedi derbyn taflen cyfrifiad treth (SA302) gan Gyllid a Thollau EM yn dangos eich incwm am y flwyddyn a'r rhwymedigaeth treth y mae Cyllid a Thollau EM wedi'i gyfrifo y dylech ei dalu mewn perthynas â'r incwm hwnnw.

! TYSTIOLAETH Mae'n rhaid i chi ddarparu copi o'ch P60 neu daflen cyfrifiad treth (SA302)

- 5 **! CANLLAWIAU** Dadansoddwch eich incwm gystal ag y gallwch, yn seiliedig ar eich math o gyflogaeth.
- Rydym yn deall na fydd rhai rhannau o'r cwestiwn hwn yn berthnasol i'ch math o gyflogaeth. Fodd bynnag, os nad yw rhan benodol wedi'i hateb (rhan rydym ni'n credu fyddai'n berthnasol), byddwn yn anfon eich cais yn ôl atoch.
- Os nad ydych yn credu bod rhan o gwestiwn yn berthnasol i chi, dilynwch y cyfarwyddiadau yn y panel ar y ffurflen a dywedwch hynny yn y blwch ateb ar gyfer y rhan honno.

Incwm hunangyflogedig

Mae tri phrif fath o incwm rydych yn debygol o'i gael os ydych yn hunangyflogedig:

- **Trosiant:** Cyfanswm yr anfonebau (gwerthiannau) a gyflwynwyd yn ystod cyfnod cyfrifyddu, heb gynnwys TAW.
- **Tyniadau:** Arian neu nwyddau y mae'r perchennog neu'r partner yn eu tynnu allan o'r busnes at ddefnydd personol.
- **Elw:** Hwn yw eich trosiant ar ôl tynnu treuliau fel teithio, rhent a threthi a ffonau.

! TYSTIOLAETH **Os ydych yn unig fasnachwr:**
Mae'n rhaid i chi ddarparu'r ffurflen hunanasesu treth yr ydych yn ei pharatoi i Gyllid a Thollau EM **neu** gofnodion sy'n dangos incwm a threuliau eich busnes.

Os ydych mewn partneriaeth fusnes:

Mae'n rhaid i chi ddarparu eich ffurflen dreth a ffurflen dreth y bartneriaeth a/neu gyfrifon busnes diweddaraf y bartneriaeth pan fyddwch yn gwneud cais am gymorth cyfreithiol.

Os ydych yn gyfarwyddwr:

Mae'n rhaid i chi ddarparu cyfrifon busnes eich cwmni a/neu eich ffurflen dreth hunanasesu lawn pan fyddwch yn gwneud cais am gymorth cyfreithiol.

Os ydych yn gyfrandaliwr:

Mae'n rhaid i chi ddarparu'r copi diweddaraf o'ch cyfrifon busnes sydd wedi'u cwblhau **neu** eich ffurflen dreth hunanasesu lawn (SA100). Nid yw'n ddigon darparu eich taflen cyfrifiad treth yn unig, oherwydd nad yw popeth sy'n cael ei gyfrif fel didyniad yn y cyfrifiad treth yn wariant a ganiateir yn yr asesiad modd.

Os ydych yn isgcontractiwr:

Dylech ddarparu *Datganiad o daliadau a didyniadau*.

Os ydych yn gweithio i asiantaeth:

Mae'n rhaid i chi ddarparu slipiau cyflog am y tri mis diwethaf.

I gael rhestr lawn o'r gofynion tystiolaeth, darllenwch y Llawlyfr Cymorth Cyfreithiol Troseddol, sydd ar gael ar y wefan Cyfiawnder – www.justice.gov.uk/legal-aid/assess-your-clients-eligibility/criminal-eligibility-calculator

- 6 **! CANLLAWIAU** Gelwir y buddion y cyfeirir atynt yn 'fuddion o fath arall' hefyd. Unrhyw fuddion rydych yn eu derbyn yw'r rhain, fel rheol gan eich cyflogwr, un ai yn hytrach nag arian, cyflog neu dâl, neu yn ogystal â hynny. Er enghraifft:

- car cwmni
- lwfans tanwydd (neu lwfans car a thanwydd)
- yswiriant iechyd preifat
- llety am ddim
- talebau cinio
- talebau gofal plant
- help i dalu eich morgais
- taliadau adleoli.

Mae Cyllid a Thollau EM yn trin buddion fel y rhain fel incwm trethadwy er nad ydynt yn cael eu derbyn fel arian. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni os ydych yn derbyn unrhyw rai o'r rhain oherwydd bod eu gwerth yn cael ei gyfrif fel incwm yn yr asesiad modd.

- ! TYSTIOLAETH** Mae angen i chi ddarparu copi o ffurflen P11D. Mae modd i chi gael y ffurflen hon gan Gyllid a Thollau EM.
-

- 7 **! CANLLAWIAU** **Budd-dal Plant**

Os oes gennych chi neu eich partner hawl i fudd-dal plant ond wedi dewis peidio â'i dderbyn oherwydd y Tâl Incwm Uchel Budd-dal Plant, dylech roi DIM neu 0.00. Bydd yn dal angen i chi ddatgan y plant y mae gennych hawl i gael budd-dal plant ar eu cyfer yng nghwestiwn 8.

Os ydych chi neu eich partner yn dal i dderbyn budd-dal plant ond bod y Tâl Incwm Uchel Budd-dal Plant yn berthnasol, dylech nodi swm llawn y budd-dal plant yr ydych chi neu eich partner yn ei dderbyn. Bydd maint y budd-dal plant yr ydych yn ei ad-dalu drwy'r tâl yn cael ei ddangos drwy'r dystiolaeth y byddwch yn ei ddarparu am y dreth yr ydych yn ei thalu.

Budd-daliadau eraill

Peidiwch â chynnwys budd-dal tai – rydym yn gofyn am hwn yng nghwestiwn 15.

- 8 **!**CANLLAWIAU Os ydych wedi dewis peidio â derbyn budd-dal plant oherwydd y Tâl Incwm Uchel Budd-dal Plant, dylech barhau i roi oedran, adeg eu pen-blwydd nesaf, unrhyw blant y mae gennych chi neu eich partner hawl i gael budd-dal plant ar eu cyfer.
-
- 9 **!**TYSTIOLAETH Os ydy'ch pensiwn cyn treth yn £1000 neu fwy y mis, mae'n rhaid i chi ddarparu un ai cyfriflen banc ddiweddar (o fewn y 3 mis diwethaf) yn dangos faint rydych yn ei dderbyn o bensiwn preifat, neu eich datganiad pensiwn blynyddol sy'n dangos faint y byddwch yn ei dderbyn.
-
- 10 **!**TYSTIOLAETH Os ydy'ch incwm cynhaliaeth yn £500 neu fwy bob mis, dylech ddarparu dogfennau sy'n cadarnhau hyn.
-
- 11 **!**CANLLAWIAU Mae cynilion a buddsoddiadau yn cynnwys:
- Cyfrifon Banc
 - Cyfrifon Cymdeithas Adeiladu
 - ISAs Arian
 - Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol
 - Cyfrifon Swyddfa'r Post
 - Stociau, gan gynnwys giltiau a bondiau'r llywodraeth
 - Cyfranddaliadau
 - Cynlluniau Ecwiti Personol (PEPs)
 - ISAs Cyfranddaliadau
 - Ymddiriedolaethau Buddsoddi-drwy-unedau (unit trusts)
 - Bondiau Buddsoddi
 - Buddsoddiadau cyfandaliad eraill.
- !**TYSTIOLAETH Os ydych yn derbyn llog neu incwm o gynilion neu fuddsoddiadau, dylech ddarparu cyfriflenni banc am y 3 mis diwethaf.
-
- 12 **!**CANLLAWIAU **Incwm o ffynonellau eraill**
Nid ydy hyn yn cyfeirio at incwm o swydd cyfarwyddwr, cyfranddaliad neu gronfa ymddiriedolaeth.
- !**TYSTIOLAETH **Os ydych yn cael incwm o rent:**
Mae'n rhaid i chi ddarparu cyfriflenni banc ar gyfer y 3 mis diwethaf.
- Os ydych yn cael incwm o rent neu unrhyw ffynhonnell arall:**
Mae'n rhaid i chi ddarparu cyfriflenni banc sy'n dangos eich bod chi neu eich partner nawr yn derbyn incwm, ac wedi bod yn derbyn yr incwm hwn, am y tri mis diwethaf.
-
- 13 **!**CANLLAWIAU Os nad oes gennych unrhyw incwm ac os nad ydych yn cael unrhyw fudd-daliadau,
-

mae angen i chi adael i ni wybod sut rydych yn cynnal eich hun ac yn talu am bethau fel eich biliau neu eich costau byw beunyddiol. Bydd y llys yn ystyried y rhesymau rydych wedi'u rhoi ac yn penderfynu a ydynt yn dderbyniol. Os ydych dan orchymyn atal neu orchymyn rhewi, mae angen i chi ddweud wrthym am hyn ac egluro a yw'r holl asedau'n cael eu hatal. Os oes gennych unrhyw incwm neu ased nad yw'n cael ei gynnwys yn y gorchmynion, datganwch hynny ar y ffurflen pan fyddwch yn ateb y cwestiynau.

14 **!** CANLLAWIAU

Rhent

Pan fyddwch yn talu i rywun am y tŷ neu'r fflat lle rydych yn byw.

Bwyd a llety

Pan fyddwch yn talu am ystafell yn nhŷ rhywun, sy'n cael ei drin fel gwely a brecwast, neu am fflat yn yr eiddo gyda bwyd neu heb fwyd.

15 **!** CANLLAWIAU

Rhowch wybod i ni faint rydych chi a'ch partner yn ei dalu am y rhent a'r morgais, gyda'ch gilydd. Os ydych chi neu eich partner yn derbyn budd-dal tai, tynnwch y swm rydych yn ei dderbyn mewn budd-dal tai o'r cyfanswm rydych yn ei dalu am y rhent a'r morgais, i roi'r swm terfynol y dylech ei ddatgan ar y ffurflen.

Dŵr, nwy, trydan a gwariant arall ar y cartref

Nid ydym yn gofyn i chi roi gwybod i ni faint rydych yn ei dalu am y biliau hyn oherwydd bod yr asesiad modd yn cynnwys yn awtomatig lwfans byw sy'n ystyried sefyllfa eich teulu a'r taliadau hyn. Mae'r lwfans byw yn cynnwys taliadau am fwyd, dillad, addysg, cludiant a thaliadau cyfleustodau fel dŵr, gwres a phŵer.

Mae rhagor o wybodaeth am y lwfans byw ar gael yn adran 14.3 y Llawlyfr Cymorth Cyfreithiol Troseddol, sydd ar gael ar y wefan Cyfiawnder yn:

www.justice.gov.uk/legal-aid/assess-your-clients-eligibility

! TYSTIOLAETH

Os ydy'ch costau tŷ dros £500 y mis, ar ôl tynnu budd-dal tai, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn. Gallai hyn fod yn gopi o'ch cytundeb tenantiaeth neu ddatganiad morgais.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd angen tystiolaeth eich bod yn talu hyn, felly efallai y byddwn yn gofyn am gyfriflenni banc hefyd.

16 **!** TYSTIOLAETH

Os ydy'ch treth cyngor dros £500 y mis, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn. Gallai hyn fod yn ddogfen gan eich cyngor.

17 **!** CANLLAWIAU

Pan fyddwch yn ateb y cwestiwn hwn, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn datgan faint o gost eich bwyd a llety sy'n cael ei wario ar fwyd. Os na fyddwch yn gwneud hyn, byddwn yn cymryd bod hanner cost eich bwyd a llety yn mynd ar fwyd.

! TYSTIOLAETH

Os yw cost eich bwyd a llety dros £500 y mis, bydd angen i chi ddarparu dogfennau sy'n cadarnhau hyn.

18 **!** CANLLAWIAU

Mae'n bosibl ystyried costau gofal plant yn yr asesiad modd os ydynt yn cael eu talu i ddarparwr gofal plant cofrestredig. Oni bai fod amgylchiadau eithriadol (e.e. anabled plentyn) dim ond ar gyfer plentyn dibynnol 15 oed neu iau y dylech wneud didyniad o'r fath. Mae rhagor o wybodaeth am gostau gofal plant ar gael yn adran 20.3.2 y Llawlyfr Cymorth Cyfreithiol Troseddol.

❗ TYSTIOLAETH Os ydy'ch costau gofal plant yn fwy na £500 y mis, rhaid i chi ddarparu derbynneb o daliad neu gyfriflen banc.

19 ❗ CANLLAWIAU Mae'n bosibl ystyried taliadau cynhaliaeth a wneir i:

briod neu bartner sifil

neu gyn briod neu bartner sifil

neu blentyn

neu berthynas dibynnol

yn yr asesiadau modd. Fodd bynnag, dim ond os nad yw'r sawl sy'n derbyn y tâl yn byw yng nghartref yr ymgeisydd y gellir ystyried y gwariant hwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adran 20.3.4 y Llawlyfr Cymorth Cyfreithiol Troseddol.

❗ TYSTIOLAETH Os ydych yn talu dros £500 y mis, mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn talu'r swm rydych wedi'i ddatgan ar y ffurflen. Gall hyn fod yn dderbynneb neu'n gyfriflen banc.

20 ❗ CANLLAWIAU Dim ond y cyfraniadau cymorth cyfreithiol canlynol y dylech eu cynnwys:

- Cyfraniadau cymorth cyfreithiol sifil y gallech chi neu eich partner fod yn eu talu
- Cyfraniadau cymorth cyfreithiol troseddol y mae eich partner yn eu talu os oeddech chi wedi cael eich cynnwys yn flaenorol yn ei asesiad.

Nid oes angen i chi ddweud wrthym am unrhyw gyfraniad rydych yn ei wneud ar achos presennol yn Llys y Goron oherwydd bydd ein cofnodion yn dangos hyn, a byddwn yn cynnwys unrhyw gyfraniadau rydych yn eu talu yn ein hasesiad. Dim ond am un cyfraniad ar y tro y gofynnir i chi amdano.

21 ❗ TYSTIOLAETH Os ydych wedi talu treth incwm o fewn y lefel 40%, mae'n rhaid i chi ddarparu copi o'ch P60 neu eich taflen cyfrifiad treth SA302 (sy'n dangos eich rhwymedigaeth treth).

22 ❗ CANLLAWIAU Bydd eich cyfreithiwr yn dweud wrthyhych a ddylech ateb **Nac ydw** neu **Ydw**. Neu efallai y dewch o hyd i'r ateb ar dudalen 1 y ffurflen CRM14 o dan *Math o achos*.

23 ❗ CANLLAWIAU Os ydych yn berchen ar dir neu eiddo ar y cyd gyda'ch partner, dim ond yn y blwch 'chi a'ch partner ar y cyd' y dylech gyfeirio at yr eiddo hwn (yn yr amgylchiadau hyn rhowch **DIM** yn y blwch wrth **Chi** ac yn y blwch wrth **Eich partner**).

24 ❗ CANLLAWIAU Mae'n rhaid i chi ddarparu digon o wybodaeth er mwyn i ni allu gwirio eich eiddo neu dir. Os nad oes digon o wybodaeth, ni fyddwn yn derbyn eich cais a byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch.

25 ❗ CANLLAWIAU

2

Perchnogion eraill rhan o eiddo neu dir

Byddai hyn yn berthnasol fel rheol os ydych wedi prynu eich eiddo ar sail rhan-berchnogaeth, er enghraifft, gyda chymdeithas tai; neu os oes rhywun arall heblaw amdanoch chi a'ch partner (os oes gennych un) yn berchen ar gyfran o'ch eiddo. Byddai hyn yn cynnwys cyn bartneriaid a phartneriaid gyda budd croes yn yr achos. **Peidiwch â chynnwys cyfran y mae benthyciwr morgais yn berchen arni.**

Gwerth y farchnad

Nid ydym yn disgwyl i chi gael prisiad neu ddatganiad morgais i ateb y rhan hon o'r cwestiwn ond dylech ddarparu amcangyfrif rhesymol (byddwn yn gwirio'r wybodaeth a ddarparwch gyda phartion eraill fel y Gofrestrfa Tir).

Mae'n rhaid i chi ddarparu digon o wybodaeth er mwyn i ni allu ei gwirio. Os nad oes digon o wybodaeth, ni fyddwn yn derbyn eich cais a byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch.

- 26 **! CANLLAWIAU** Bydd angen i chi ddweud wrthym am eich holl gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu, gan gynnwys eich cyfrif cyfredol ac unrhyw gyfrifon gwag neu sydd mewn gorddrafft. Dylech hefyd ddweud wrthym am unrhyw gyfrifon y mae eich budd-daliadau, eich cyflog neu eich tâl chi neu eich partner yn cael eu talu iddynt.

Cod didoli neu rif y cyfrif:

Mae'r rhain ar gyfriflenni banc fel rheol (efallai y bydd nifer o godau). Fodd bynnag, os nad ydych yn gwybod y wybodaeth hon, byddwn yn derbyn eich cais ar yr amod eich bod wedi rhoi enw eich banc neu gymdeithas adeiladu, a'r gangen ar gyfer pob cyfrif.

Balansau mewn cyfrif: nid ydym yn disgwyl i chi nodi'r union falans (oni bai fod y cyfriflenni gennych chi pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen). Ond dylech nodi amcangyfrif rhesymol.

Mae'n rhaid i chi ddarparu digon o wybodaeth er mwyn i ni allu ei gwirio. Os nad oes digon o wybodaeth, ni fyddwn yn derbyn eich cais a byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch.

! TYSTIOLAETH

Bydd angen i chi ddarparu dogfennau sy'n cefnogi'r wybodaeth a roddwyd gennych ar y ffurflen, er enghraifft:

- Cyfriflenni banc am y 3 mis diwethaf, ar gyfer pob cyfrif
- Cyfriflenni cymdeithas adeiladu neu baslyfrau yn dangos trafodion ar gyfer y 3 mis diwethaf, ar gyfer pob cyfrif.
- Cyfriflen ISA arian neu dystysgrif ar gyfer pob ISA arian
- Cyfriflenni Cynilion Cenedlaethol neu Gyfrifon Swyddfa'r Post ar gyfer y 3 mis diwethaf, ar gyfer pob cyfrif
- Cyfriflen, paslyfr, tystysgrif yn cynnwys trafodion ar gyfer y 3 mis diwethaf

Gweler *Ynglŷn â thystiolaeth* ar dudalen 3.

- 27 **! CANLLAWIAU** **Bondiau Cynilo Premiwm:** Rhif 9 digid ydy'r rhif deiliad. Os nad oes gennych y rhif deiliad neu'r gwerth arian, dylech gadarnhau bod gennych chi Fondiau Cynilo Premiwm (atebwch **Oes**) a rhoi amcangyfrif rhesymol o'r gwerth.

Mae'n rhaid i chi ddarparu digon o wybodaeth er mwyn i ni allu ei gwirio. Os nad oes

digon o wybodaeth, ni fyddwn yn derbyn eich cais a byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch.

❗ TYSTIOLAETH

Tystysgrifau ar gyfer yr holl Fondiau Cynilo Premiwm neu Gofnod Bond (gellir galw hyn yn Grynodedb). Gweler *Ynglŷn â thystiolaeth* ar dudalen 3.

28 ❗ CANLLAWIAU **Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol:**

Rhif 9 digid ydy'r rhif deiliad. Os nad ydych yn gwybod beth ydy eich rhif deiliad, gallwch roi eich rhif cwsmer (mae'r rhif cwsmer yn rhif 8 digid, wedyn llinell doriad a dau ddigid). Os nad ydych yn gwybod beth ydy'r gwerth mewn arian parod, dylech gadarnhau bod gennych chi Dystysgrif Cynilion Cenedlaethol (atebwch **Oes**) a rhoi amcangyfrif rhesymol o'r gwerth.

Mae'n rhaid i chi ddarparu digon o wybodaeth er mwyn i ni allu ei gwirio. Os nad oes digon o wybodaeth, ni fyddwn yn derbyn eich cais a byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch.

❗ TYSTIOLAETH

Pob Tystysgrif Cynilion Cenedlaethol neu baslyfr. Gweler *Ynglŷn â thystiolaeth* ar dudalen 3.

29 ❗ CANLLAWIAU **Os oes gennych unrhyw fuddsoddiadau:**

Mae'n rhaid i'r wybodaeth rydych yn ei datgan fod yn ddigonol fel ein bod yn gallu pennu'r buddsoddiadau. Os nad ydych yn darparu digon o wybodaeth i bennu'r buddsoddiad, anfonir eich ffurflen gais yn ôl atoch. Er enghraifft, os oes gennych chi gyfranddaliadau hyd at £5,000, dylech ddweud wrthym sut mae'r cyfranddaliad wedi'i ffurfio, er enghraifft National Express £2,000, Marks & Spencer £1,500, HSBC £1,500.

Mae'n rhaid i chi ddarparu digon o wybodaeth er mwyn i ni allu ei gwirio. Os nad oes digon o wybodaeth, ni fyddwn yn derbyn eich cais a byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch.

❗ TYSTIOLAETH

Bydd angen i chi ddarparu dogfennau sy'n cefnogi'r wybodaeth a roddwyd gennych ar y ffurflen, er enghraifft:

- Tystysgrif ar gyfer pob stoc a ddelir
- Y bonyn difidend diweddaraf ar gyfer pob cwmni rydych yn dal cyfranddaliadau ynddynt.
- Tystysgrif ar gyfer pob buddsoddiad PEP
- Tystysgrif ar gyfer pob buddsoddiad ISA Cyfranddaliadau
- Tystysgrif ar gyfer pob buddsoddiad Ymddiriedolaeth Unedol
- Tystysgrif ar gyfer pob Buddsoddiad Bond
- Cyfriflen, paslyfr, tystysgrif yn cynnwys trafodion ar gyfer y 6 mis diwethaf

Gweler *Ynglŷn â thystiolaeth* ar dudalen 3.

30 ❗ CANLLAWIAU **Cronfeydd Ymddiriedolaeth**

Os ydy llys wedi'ch rhoi ar remand yn y ddalfa, dylech roi amcangyfrif rhesymol o'r swm a ddelir mewn cronfa ymddiriedolaeth a'r difidend a roddir bob blwyddyn. Ond,

os ydych wedi cael eich rhyddhau ar fechniaeth, rydym yn disgwyl i chi gael y wybodaeth hon cyn y byddwch yn cyflwyno eich cais.

❗ **TYSTIOLAETH** Mae angen i chi ddarparu'r ddogfen ymddiriedolaeth wreiddiol neu gopi ardystiedig ohoni.

Gweler *Ynglŷn â thystiolaeth* ar dudalen 3.

- 31 ❗ **CANLLAWIAU** Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyflwyno gorchmynion atal yn erbyn diffynnydd mewn perthynas â chyhuddiadau elw troseddau i atal y diffynnydd rhag diddymu ei asedau. Os ydych dan orchymyn atal, byddai'r llys wedi rhoi gwybod yn ffurfiol i chi ble bydd eich achos yn cael ei gynnal.

Mae'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol yn gwneud gorchmynion rhewi i atal diffynnydd rhag gwaredu asedau neu eu symud allan o'r wlad wrth ddisgwyl i ddatrys anghydfod.

Os mai Oes oedd eich ateb, darperwch gopi o'r gorchymyn atal neu'r gorchymyn rhewi.

❗ **TYSTIOLAETH**

- 32 ❗ **CANLLAWIAU** Os ydych wedi cael eich cyhuddo o drosedd neillfordd neu dditiadwy, efallai y bydd yn rhaid i chi gyfrannu at rywfaint o gostau neu holl gostau eich amddiffyniad; gall hyn fod o'ch incwm, o'ch cyfalaf neu gyfuniad o'r ddau. Sylwer: Os yw eich incwm gwario yn £37,500 neu'n fwy, ni fyddwch yn gymwys am gymorth cyfreithiol mewn treial yn Llys y Goron a bydd yn rhaid i chi dalu'n breifat.
-

- 33 ❗ **CANLLAWIAU** **Cerbydau Modur**
Dylech ddweud wrthym am unrhyw gerbydau modur yr ydych chi yn berchen arnynt eich un neu gyda rhywun arall drwy ddarparu rhifau cofrestru'n cerbydau.
-

- 34 ❗ **CANLLAWIAU** Dim ond os yw'r llys wedi eich rhoi ar remand yn y ddalfa y dylech roi tic wrth **Oes**.
-

- 35 ❗ **CANLLAWIAU** Os yw eich achos yn cael ei gynnal mewn llys ynadon a'r llys hwnnw fydd yn penderfynu a ydych yn euog neu'n ddiuog, dylech roi tic wrth **Bydd**. Os bydd eich achos yn cael ei draddodi i Llys y Goron am dreial dylech roi tic wrth **Na fydd**.
-

- 36 ❗ **CANLLAWIAU** Mae 'ffurflen sydd wedi'i llenwi'n gywir' yn cynnwys, nid yn unig ateb llawn ar gyfer pob cwestiwn, **ond hefyd bod tystiolaeth yn cael ei darparu i gadarnhau'r wybodaeth a roddwch, pan fyddwn ei hangen** (Gweler *Ynglŷn â thystiolaeth* ar dudalen 3). Dylai'r rhestr wirio eich helpu i wneud cais cywir. Cofiwch:

❗ **TYSTIOLAETH**• Os byddwch yn darparu tystiolaeth wreiddiol, bydd y llys fel rheol yn gwneud copi ac yn dychwelyd y gwreiddiol atoch. Neu gallwch ddarparu copi a ardystiwyd gan eich cyfreithiwr.

Os byddwch yn anfon y ffurflenni a'r dystiolaeth drwy'r post, awgrymwn eich bod yn ystyried defnyddio dosbarthiad a gofnodwyd. Bydd hyn yn rhoi prawf i chi bostio'r dogfennau ac yn rhoi cofnod bod y llys wedi eu derbyn.

- Os ydych yn cael gwir anhawster yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom, gallwch chi neu eich cyfreithiwr gysylltu â'r llys am gyngor.
-